Dylid dychwelyd pob copi o'r papur hwn i CBAC.
Ni chaniateir llungopïo'r papur hwn na'i roi i eraill am unrhyw reswm.

Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith:
Defnyddio'r Gymraeg

GWRANDO
Sgriptiau – i'r trefnyddion a thiwtoriaid yn unig

Arholiad 1 Chwefror 2019

Rhan 1 – Deialog

Fersiwn y De

Mae Mari a Siôn yn siarad yn y garej.

Mari: Bore da. Beth yw'r enw, os gwelwch chi'n dda?
Siôn: Siôn Williams.
Mari: Wel, croeso i'r garej, Siôn. Mari dw i. Oes diddordeb 'da chi mewn cael car newydd?
Siôn: Nac oes, dw i eisiau prynu bws mini. Mae tîm pêl-droed, tîm rygbi a thîm hoci i blant dan ddeg oed yn Llanaber erbyn hyn. Rhaid i ni gael bws mini i fynd â'r plant i'r gemau.
Mari: Mae'n dda clywed bod plant y dre'n gwneud llawer o chwaraeon. Dych chi'n dysgu un o'r timau?
Siôn: Dw i'n dysgu'r tîm rygbi, ond mae fy mab i yn y tîm pêl-droed, felly dw i'n gyrru o gwmpas llawer bob penwythnos.
Mari: Dych chi eisiau bws mini *newydd*?
Siôn: Nac ydw. Does dim digon o arian gyda ni yn y clwb i brynu un newydd. 'Dyn ni eisiau rhywbeth am tua un deg pum mil.
Mari: Mm, does dim byd yma yn Llanaber, ond mae un gyda ni yn ein garej arall ni yn Aberwylan, dw i'n meddwl. 'Dyn ni'n gallu dod â'r bws yma i chi'i weld e erbyn yfory, os dych chi eisiau.

Siôn: Dw i'n gweithio yn ysbyty Aberteifi yfory, mae'n ddrwg 'da fi. Dw i'n gweithio fel meddyg, felly does dim llawer o amser sbâr gyda fi.
Mari: Beth am wythnos nesa?
Siôn: Dw i ddim yn gweithio dydd Gwener.
Mari: Dim problem. 'Dyn ni ar agor trwy'r dydd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn hefyd, wrth gwrs.
Siôn: Iawn, ond rhaid i fi ddod â'r plant gyda fi achos does dim ysgol dydd Gwener.
Mari: Faint o blant sy gyda chi?
Siôn: Un mab – fe sy'n chwarae pêl-droed – a dwy ferch. Does dim diddordeb gyda'r ddwy ferch mewn chwaraeon. 'Dyn nhw ddim yn hoffi nofio na rhedeg. Maen nhw'n aros gartre drwy'r amser yn chwarae gyda'r ci neu'n tecstio ffrindiau. Un peth da: does dim rhaid i fi eu gyrru nhw o gwmpas bob dydd!
Mari: Iawn, gwela i chi ddydd Gwener, felly. Bydd y bws yma'n barod i chi.
Siôn: Diolch yn fawr i chi am eich help. Hwyl.

Fersiwn y Gogledd

Mae Mari a Siôn yn siarad yn y garej.

Mari: Bore da. Be' ydy'r enw, os gwelwch chi'n dda?
Siôn: Siôn Williams.
Mari: Wel, croeso i'r garej, Siôn. Mari dw i. Oes gynnoch chi ddiddordeb mewn cael car newydd?
Siôn: Na, dw i isio prynu bws mini. Mae 'na dîm pêl-droed, tîm rygbi a thîm hoci i blant dan ddeg oed yn Llanaber erbyn hyn. Rhaid i ni gael bws mini i fynd â'r plant i'r gemau.
Mari: Mae'n dda clywed bod plant y dre'n gwneud llawer o chwaraeon. Dach chi'n dysgu un o'r timau?
Siôn: Dw i'n dysgu'r tîm rygbi, ond mae fy mab i yn y tîm pêl-droed, felly dw i'n gyrru o gwmpas llawer bob penwythnos.
Mari: Dach chi isio bws mini *newydd*?
Siôn: Nac oes. Does gynnon ni ddim digon o bres yn y clwb i brynu un newydd. 'Dan ni isio rhywbeth am tua un deg pum mil.
Mari: Mm, does 'na ddim byd yma yn Llanaber, ond mae gynnon ni un yn ein garej arall ni yn Aberwylan, dw i'n meddwl. 'Dan ni'n medru dŵad â'r bws yma i chi'i weld o erbyn yfory, os dach chi isio.

Siôn: Dw i'n gweithio yn ysbyty Aberteifi yfory, mae'n ddrwg gen i. Dw i'n gweithio fel meddyg, felly does gen i ddim llawer o amser sbâr.
Mari: Be' am wythnos nesa?
Siôn: Dw i ddim yn gweithio dydd Gwener.
Mari: Dim problem. Dan ni ar agor trwy'r dydd bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar fore Sadwrn hefyd, wrth gwrs.
Siôn: Iawn, ond rhaid i mi ddŵad â'r plant efo fi achos does dim ysgol ddydd Gwener.
Mari: Faint o blant sy gynnoch chi?
Siôn: Un mab – fo sy'n chwarae pêl-droed – a dwy hogan. Does gan y ddwy hogan ddim diddordeb mewn chwaraeon. Dydyn nhw ddim yn licio nofio na rhedeg. Maen nhw'n aros adra trwy'r amser yn chwarae efo'r ci neu'n tecstio ffrindiau. Un peth da: does dim rhaid i mi eu gyrru nhw o gwmpas bob dydd!
Mari: Iawn, wela i chi ddydd Gwener, felly. Mi fydd y bws yma'n barod i chi.
Siôn: Diolch yn fawr i chi am eich help. Hwyl.

Rhan 2 – Bwletin Tywydd

Fersiwn y De

Dyma'r bwletin tywydd.

Wel, roedd hi'n dwym ddoe, on'd oedd hi? Roedd hi'n rhy dwym i ni yma yn y stiwdio. Dyw hi ddim yn dwym heddiw, ond mae hi'n wyntog dros Gymru i gyd. Dros nos heno, bydd y glaw yn cyrraedd a bydd hi'n bwrw glaw yn y de a'r gogledd. Ond y newyddion da: bydd hi'n sych yfory, tywydd da i fynd am dro. Tywydd da iawn i fynd i Sioe Ffermio Llanaber hefyd, os dych chi'n byw yn y gogledd.

A dyna'r bwletin tywydd.

Fersiwn y Gogledd

Dyma'r bwletin tywydd.

Wel, roedd hi'n boeth ddoe, toedd? Roedd hi'n rhy boeth i ni yma yn y stiwdio. Dydy hi ddim yn boeth heddiw, ond mae hi'n wyntog dros Gymru i gyd. Dros nos heno, mi fydd y glaw yn cyrraedd ac mi fydd hi'n bwrw glaw yn y de a'r gogledd. Ond y newyddion da: mi fydd hi'n sych yfory, tywydd da i fynd am dro. Tywydd da iawn i fynd i Sioe Ffermio Llanaber hefyd, os dach chi'n byw yn y gogledd.

A dyna'r bwletin tywydd.

Rhan 3 – Hysbysiadau

Fersiwn y De

1. Bydd Ffair Ysgol Cwm Du ar y maes chwarae nos Wener nesa. Bydd llawer o stondinau i'r rhieni, a gemau i'r plant. Pris mynediad yw **dwy bunt**. Bydd popeth yn dechrau am **chwarter wedi chwech**. Croeso i bawb.

2. Os dych chi'n hoffi darllen, dewch i grŵp darllen y dre. Bydd y sesiwn nesa fore dydd Mercher, yn dechrau am **un ar ddeg o'r gloch** yn siop lyfrau'r Ddraenen Wen. **Does dim rhaid i chi dalu** i ddod i'r grŵp.

3. Oes ci gyda chi? Bydd Sioe Gŵn yn neuadd y dre am **hanner awr wedi saith** nos Fawrth nesa. Pris tocyn fydd **pedair punt pum deg ceiniog**. Does dim ots pa gi sy gyda chi, dewch â fe neu hi i gael tipyn o hwyl. Bydd yr arian yn mynd at y PDSA.

4. Nos Sadwrn nesa, bydd cwmni drama Tân Gwyllt yn perfformio yn Theatr y Dre, yn dechrau am **wyth o'r gloch**. Enw'r ddrama yw Gwynt Drwg! Mae'r tocynnau ar gael yn siop y theatr am **un deg pum punt**. Dyw'r ddrama ddim yn addas i blant dan un deg chwech oed.

5. Dych chi eisiau cadw'n heini? Dewch i ddosbarth Pilates brynhawn dydd Iau nesa am **ddau o'r gloch** yng nghanolfan hamdden Ystwyth. Cost pob sesiwn yw **saith punt**. Cofiwch wisgo dillad addas.

Rhan 3 – Hysbysiadau

Fersiwn y Gogledd

1. Mi fydd Ffair Ysgol Cwm Du ar y maes chwarae nos Wener nesa. Mi fydd llawer o stondinau i'r rhieni, a gemau i'r plant. Pris mynediad ydy **dwy bunt**. Mi fydd popeth yn dechrau am **chwarter wedi chwech**. Croeso i bawb.

2. Os dach chi'n hoffi darllen, dewch i grŵp darllen y dre. Mi fydd y sesiwn nesa fore dydd Mercher, yn dechrau am **un ar ddeg o'r gloch** yn siop lyfrau'r Ddraenen Wen. **Does dim rhaid i chi dalu** i ddŵad i'r grŵp.

3. Oes gynnoch chi gi? Mi fydd Sioe Gŵn yn neuadd y dre am **hanner awr wedi saith** nos Fawrth nesa. Pris tocyn fydd **pedair punt pum deg ceiniog**. Does dim ots pa gi sy gynnoch chi, dewch â fo neu hi i gael tipyn o hwyl. Mi fydd y pres yn mynd at y PDSA.

4. Nos Sadwrn nesa, mi fydd cwmni drama Tân Gwyllt yn perfformio yn Theatr y Dre, yn dechrau am **wyth o'r gloch**. Enw'r ddrama ydy Gwynt Drwg! Mae'r tocynnau ar gael yn siop y theatr am **un deg pum punt**. Dydy'r ddrama ddim yn addas i blant dan un deg chwech oed.

5. Dach chi isio cadw'n heini? Dewch i ddosbarth Pilates brynhawn dydd Iau nesa am **ddau o'r gloch** yng nghanolfan hamdden Ystwyth. Cost pob sesiwn ydy **saith punt**. Cofiwch wisgo dillad addas.